



POLISI DWYIEITHRWYDD

CYFLWYNIAD

Nod Antur Teifi yw dilyn canllawiau arfer da dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl weithgareddau busnes. Arweiniodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 at sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd â dyletswydd i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y sector cyhoeddus. Roedd y Ddeddf hefyd yn rhoi hawl ddiamod i bob siaradwr Cymraeg siarad yr iaith mewn llysoedd beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Roedd Mesur y Gymraeg 2011 yn rhoi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae wedi creu swydd newydd Comisiynydd y Gymraeg sydd â phwerau gorfodi er mwyn gwarchod hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae gan gyrrff ddyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg a gellir gorfodi'r hawliau hyn er mwyn galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu hymwneud â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Pan fydd y sefydliad yn cyflwyno polisiâu, arferion neu fentrau newydd, byddwn yn sicrhau eu bod yn hwyluso ac yn hybu'r hyn sy'n cael ei addo yn y Polisi hwn.

Rhan hanfodol o'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau fydd codi ymwybyddiaeth ystyrllon ynghylch y Gymraeg a'i photensial o safbwynt busnes yn gyffredinol, ac yn arbennig mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf.

EGWYDDORION EIN POLISI IAITH GYMRAEG

Rydym wedi mabwysiadu egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Rhoddir yr un statws a dilysrwydd i'r ddwy iaith.

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd i weithredu'r egwyddor hon yn ein gwaith.

Wrth ymdrin â'n cleientiaid a chwsmeriaid eraill, rydym yn ceisio:

- *mabwysiadu'r un amcanion a safonau proffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg, ble bynnag y bo modd,*
- *galluogi ein cwsmeriaid, ble bynnag y bo modd, i ddefnyddio'r Gymraeg yr un mor hwylus â'r Saesneg wrth ymwneud â ni, a sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol o'r cychwyn bod ganddynt ddewis iaith wrth geisio gwybodaeth a chyngor,*

Fersiwn: 7	Dyddiad 01/06/2018	Tudalen 1 o 6	Crëwyd gan: <i>MH Monis</i>	Awdurdodwyd gan: <i>Dwain</i>
Llawlyfr Staff		Atodiad 11		



- *sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r angen i ystyried defnyddio'r Gymraeg yn y busnesau y maent am eu cychwyn neu eu datblygu.*

Rydym yn cymryd yr ymrwymiad hwn o ddifrif ac yn mabwysiadu safbwynt rhagweithiol o ran dewis iaith yn ein gwasanaethau, ble bynnag y bo modd. Wrth gysylltu â chleientiaid, mae hyn yn golygu cynnig dewis iaith o'r cychwyn, a cheisio ein gorau i'w ddarparu.

Bydd hyn yn golygu atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

CROESAWU YMWELWYR

Bydd croeso i ymwelwyr â'n swyddfeydd drafod eu hymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hysbysiad dwyieithog yn y dderbynfa sy'n egluro i ymwelwyr bod modd iddynt drafod â'r sefydliad yn y naill iaith neu'r llall. Mae rhai o'r staff sy'n gweithio yn ein derbynfeydd yn ddwyieithog.

Byddwn yn gofyn i ymwelwyr a fyddent yn dymuno trafod â rhywun yn Gymraeg.

Mae aelodau Cymraeg o staff ar gael i drafod unrhyw ymholiadau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, fel bo'r angen, naill ai yn y fan a'r lle neu drwy drefniant.

Bydd modd gweld bod y deunydd ar ddrysau, waliau, hysbysfyrddau, raciau arddangos, silffoedd a byrddau yn ein derbynfa a mannau cyffredin a choridorau i gyd yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys arwyddion a hysbysiadau parhaol a thros dro, poster, deunydd darllen ac yn y blaen.

Os bydd pobl eraill am i ni arddangos eu deunydd nhw, byddwn yn gofyn iddynt ei ddarparu yn ddwyieithog.

CYSWLLT FFÔN

Rydym yn croesawu galwadau ffôn gan gwsmeriaid yn Gymraeg neu'n Saesneg. Byddwn yn ateb galwadau i'r switsfwrdd gyda chyfarfodiad dwyieithog a bydd y sawl sy'n ateb y ffôn neu aelod arall o staff yn ymdrin â'r alwad yn newis iaith yr unigolyn dan sylw. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i gymryd galwad, gwneir trefniadau i siaradwr Cymraeg ddychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo modd.

Bydd gwasanaeth 'neges llais' y switsfwrdd yn cynnwys neges ddwyieithog, a bydd croeso i gwsmeriaid adael neges yn Gymraeg neu'n Saesneg. Byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog ac i roi negeseuon dwyieithog ar eu 'neges llais' bersonol.

Fersiwn: 7	Dyddiad: 01/06/2018	Tudalen 2 o 6
----------------------	-------------------------------	-------------------------



CYNGHORI A RHEOLI CLEIENTIAID

Ble bynnag y bo modd, byddwn bob amser yn ceisio darparu cyngor personol yn newis iaith y cleient. Gwneir hyn drwy aelod o staff neu gynghorydd busnes sy'n gweithio dan gontract.

Byddwn yn cadarnhau o'r cychwyn a fyddai cleientiaid yn dymuno trafod â chynghorydd dwyieithog. Bydd unrhyw wybodaeth a gaiff ei hanfon at gleient cyn y cyfarfod cyntaf yn y ddwy iaith, ac ar ôl hynny caiff gwybodaeth ei darparu yn newis iaith y cleient. Os oes angen cynnwys pobl eraill [e.e. arbenigwyr marchnata], byddwn yn ceisio darparu dilyniant iaith, ond efallai na fydd hyn yn bosibl bob tro. Bydd gwybodaeth am ddewis iaith y cleient yn cael ei rhannu fel mater o drefn wrth ei gyfeirio at barti arall.

Byddwn yn ystyried darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn trafodaeth grŵp.

Byddwn yn ceisio adlewyrchu dewis iaith mewn unrhyw sesiynau hyfforddi neu ddigwyddiadau cymorth eraill a drefnir gennym, lle bydd cleientiaid yn dod ynghyd. Mae gennym restr o hyfforddwyr a siaradwyr, ac mae rhai ohonynt yn siarad Cymraeg.

LLYTHYRAU, NEGESEUON E-BOST A DOGFENNAU

Rydym yn croesawu llythyrau ac unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig arall megis ffacs a negeseuon e-bost yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cwsmer, yn unol â'n targedau ymateb. Bydd pob llythyr a anfonwn ar bapur yn cael ei lofnodi, pa iaith bynnag a ddefnyddir yn y llythyr. Bydd pob gohebiaeth a gychwynnir gan ein staff ni, boed yn Saesneg neu'n Gymraeg, yn cynnwys troednodyn dwyieithog sy'n dweud bod croeso i'r derbynnydd ateb yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ôl yr hyn sydd orau ganddo. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dilyn yn cadw at iaith ymateb y derbynnydd. O bryd i'w gilydd, gall amserlen ateb llythyrau a negeseuon e-bost y mae angen eu cyfieithu fod yn hwy na'r amserlen ar gyfer ateb mewn un iaith yn unig.

Fel rheol, bydd llythyrau safonol a llythyrau i grwpiau o bobl yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.

Os yw dewis iaith y cleient yn hysbys i ni (e.e. drwy ddeunydd marchnata, cyfarfodydd neu drafodaethau blaenorol, sgysiau ffôn a negeseuon e-bost) byddwn yn anfon gohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd oni bai y cytunwyd fel arall.

Mae'r dull gweithredu uchod yn berthnasol i bob math o ohebiaeth ysgrifenedig. Mae trefniadau cyfieithu ar waith i gynorthwyo staff.

Fersiwn: 7	Dyddiad: 01/06/2018	Tudalen 3 o 6
----------------------	-------------------------------	-------------------------



CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU

Pan fyddwn yn cynnal derbyniadau, cyfarfodydd cyhoeddus, gweithdai neu gynadleddau, bydd croeso i fynychwyr gyfrannu yn Gymraeg neu'n Saesneg, a chaiff hyn ei egluro yn y papurau ac ar ddechrau'r digwyddiad.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog, a byddant naill ai'n nodi y bydd offer cyfieithu ar gael, neu'n gofyn i bobl hysbysu trefnwyr y digwyddiad o'u dewis iaith ymlaen llaw fel bod modd trefnu offer cyfieithu os oes eu hangen. Er y gallai offer cyfieithu ar y pryd gael eu defnyddio mewn sesiynau llawn, gwneir penderfyniad, fesul digwyddiad, ynghylch darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gweithdai. Bydd y penderfyniad yn dibynnu ar ffactorau ymarferol, y galw, a chost-ffeithiolrwydd. Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol mewn digwyddiadau busnes i groesawu mynychwyr ac ymdrin ag unrhyw ymholiadau.

Ein trefn arferol fydd darparu papurau a gwybodaeth arall yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys ein cyflwyniadau. Os gallwn, byddwn yn defnyddio'r Gymraeg ein hunain o'r llwyfan, y podiwm neu'r llawr, ac yn annog eraill i wneud yr un fath wrth wneud y trefniadau a thrwy'r sawl sy'n cadeirio'r digwyddiad.

EIN HWYNEB CYHOEDDUS A'N CYNNYRCH

Ein hunaniaeth gorfforaethol

Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn gwbl ddwyieithog. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau, a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd papur megis cardiau busnes, bathodynnau enw, cyhoeddiadau, hysbysebion, gwefan, arwyddion a cherbydau.

Arwyddion

Bydd ein harwyddion parhaol a thros dro, tu mewn a thu allan i'n hadeiladau, yn ddwyieithog. Mae hyn eisoes yn digwydd.

Mae'r arwyddion eraill, mewn manau cyffredin a thu allan i'n hadeiladau, yn eiddo i berchennog yr adeilad a thu hwnt i'n rheolaeth ni.

Ar ein harwyddion dwyieithog, byddwn yn trin y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd. Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd hyn yn berthnasol i bob math o arwyddion, gan gynnwys rhai electronig.

Fersiwn: 7	Dyddiad: 01/06/2018	Tudalen 4 o 6
----------------------	-------------------------------	-------------------------

Ein gwefan

Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog a bydd yn parhau felly.

Bydd y dudalen agoriadol yn nodi bod croeso i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ymwneud â ni ble bynnag y bo modd.

Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ddwyieithog ar ein gwefan, bydd y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg yn cael eu rhoi ar yr un pryd.

Cyhoeddiadau a deunydd gweledol

Ein trefn arferol fydd cyhoeddi yn ddwyieithog y deunydd a ddarparwn i'r cyhoedd ac i gleientiaid, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddiadau corfforaethol cyffredinol taflenni pwnc, canllawiau, ffurflenni, deunydd hysbysebu, adroddiadau a holiaduron. Mae hyn eisoes yn digwydd, a bydd yn parhau i ddigwydd. Os oes angen i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu hargraffu ar wahân (e.e. pe bai dogfen ddwyieithog yn rhy hir neu drwchus), bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, ac yr un mor hwylus. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd a ddarparwn yn electronig ar ein gwefan, gan gynnwys ffurflenni sefydlog a rhyngweithiol, a deunydd ar ffurf CD ROM neu ffurf arall gan gynnwys y Fewnrwyd. Pan fyddwn yn dosbarthu ffurflenni ar ran sefydliadau eraill, er enghraifft Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn unol â'u polisi dwyieithrwydd hwy.

Marchnata a gweithgareddau cyhoeddusrwydd

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu digwyddiad ac yn arddangos ein deunydd, byddwn yn arddangos unrhyw fersiynau Cymraeg o'n deunydd yn ogystal. Bydd unrhyw fyrddau arddangos neu destun ar gyfer arddangosfa yn ddwyieithog.

Pan fyddwn yn rhoi hysbysebion mewn papurau newydd, cylchgronau neu gyhoeddiadau eraill, byddant yn cynnwys ein delwedd a'n gwybodaeth gorfforaethol yn ddwyieithog.

Wrth staffio ein stondinau a'n harddangosfeydd, byddwn yn cynnwys aelod o staff neu gynghorydd dwyieithog.

Pan fyddwn yn cynnal arolygon o farn y cyhoedd, byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog, a bod y sawl sy'n cwblhau'r holiadur yn cael gwybod bod modd iddynt wneud hynny yn y naill iaith neu'r llall.

Hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion

Pan fyddwn yn rhoi hysbysiad swyddogol yn y wasg, yn ein hadeiladau ac ar ein gwefan, megis hysbysiad ynghylch cyfarfod cyhoeddus, bydd yn ddwyieithog.

Fersiwn: 7	Dyddiad: 01/06/2018	Tudalen 5 o 6
----------------------	-------------------------------	-------------------------



Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog

RHEOLI A CHEFNOGI EIN POLISI

Mae hwn yn bolisi cwmni a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli. Byddwn yn cydlynu ac yn adolygu'r modd y caiff ei weithredu yn rhan o weinyddu'r busnes yn barhaus.

Mae un o'n Rheolwyr yn gyfrifol am arwain a goruchwylio cynnydd.

Mae cynllun gweithredu ar waith i lywio'r broses o'i weithredu ar draws y cwmni.

Byddwn yn rhoi anogaeth ac arweiniad i'n staff ynglŷn â'i weithredu, fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud ac yn gallu gwneud hynny'n hyderus Mae trefniadau cyfieithu ar waith i gynorthwyo â gweithredu'r polisi. Byddwn yn monitro ac yn sicrhau ansawdd ein gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan o'n trefniadau gofal cwsmer, gan ddefnyddio'r un meini prawf gwerthuso ag y gwnawn gydag agweddau eraill ar ein gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â phryderon cleientiaid.

Ble bynnag y bo modd bydd angen i'n contractwyr a'n hasiantiaid gadw at ein Polisi wrth wneud gwaith ar ein rhan. Byddwn yn eu briffio ynghylch yr hyn a ddisgwylir gennym, ac yn monitro'r hyn a gyflawnir ganddynt.

Byddwn yn rhoi cefnogaeth i unrhyw aelod o'n staff sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg neu wella ei sgiliau iaith i'w defnyddio yn y gwaith.

Bydd staff mewn swyddi lle byddai sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol i weithredu neu hybu'r Polisi hwn ymhellach, yn cael eu hannog i feithrin sgiliau Cymraeg yn rhan o'u datblygiad. Bu i ni feincnodi'r hyn y gallwn ei gyflawni pan fabwysiadwyd y Polisi hwn, a byddwn yn adolygu ein cynnydd a'r graddau yr ydym yn cydymffurfio â'r polisi ac yn ystyried a allwn ddatblygu ein gweithgaredd Cymraeg ymhellach. Os oes modd gwneud mwy, byddwn yn adolygu geiriad y Polisi ac yn symud ymlaen.

Os hoffech gysylltu â ni i drafod cynnwys y Polisi neu'r weithdrefn, a wnewch chi gysylltu â'r person a enwir isod yn y lle cyntaf:

Marion Morris
Parc Busnes
Aberarad
Castell Newydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin SA38 9DB
Neu drwy neges e-bost at: mmorris@anturteifi.org.uk

Fersiwn: 7	Dyddiad: 01/06/2018	Tudalen 6 o 6
----------------------	-------------------------------	-------------------------